CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – Datblygu a Phrynu Anheddau sy'n Bod

Cyfeirnod y cymhorthdal SC11060 - bydd yr ymyrraeth hon yn cyfrannu at y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi rhent cymdeithasol carbon isel yn nhymor y llywodraeth hon.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Ebrill 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Pwyntiau i'w nodi

Rhanbarth

Teitl

Sail gyfreithiol

Amcanion

Awdurdodau cyhoeddus

Cymhwysedd

Sectorau

Hyd

Cyllideb

Ffurf y cymorth

Telerau ac amodau

Cyfrifo cymorthdaliadau

Uchafswm y cymhorthdal

Gwybodaeth gysylltu



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Pwyntiau i'w nodi

Os ydych yn defnyddio'r cynllun hwn i ddyfarnu cymorthdaliadau, rhaid ichi roi gwybod i'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau drwy anfon e-bost i: **scu@gov.wales**.

# 1. Rhanbarth

Cymru Gyfan

# 2. Teitl y Cynllun Cymhorthdal

Benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – Datblygu a Phrynu Anheddau sy'n Bod

# 3. Sail gyfreithiol y DU

Daw'r pwerau statudol perthnasol fel a ganlyn:

- Mae adran 79(1) o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (pwerau mewn perthynas â grantiau a benthyciadau) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi benthyciad i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn iddo allu ysgwyddo'r gwariant neu ran ohono a gafodd neu a gaiff ei wario ganddo wrth gyflawni ei amcanion. Gall benthyciad fod yn fenthyciad dros dro neu fel arall, a gall telerau'r benthyciad gynnwys telerau ar gyfer atal ad-dalu'r benthyciad neu ran ohono cyn dyddiad penodedig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru (adran 79(3)). Yn amodol ar hynny, Gweinidogion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymru fydd yn penderfynu ar amodau'r benthyciad naill ai'n gyffredinol neu mewn achos penodol (adran 79(4)).

- Mae adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru o ran hyrwyddo llesiant. Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth a ystyrir yn briodol ganddynt i hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol Cymru. Gellir arfer y pwer hwn er lles neu mewn perthynas â Chymru gyfan neu unrhyw ran ohoni, neu â phawb neu unrhyw rai sy'n byw neu sy'n bresennol yng Nghymru.
- Mae adran 58A o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau gweinidogol gweithredol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, neu sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig os ydynt yn ategu swyddogaeth. Mae hwn yn bŵer cyffredinol sy'n cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â gwariant neu faterion ariannol eraill.
- Mae Adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("Deddf 1996") yn rhoi'r pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cymorth ariannol i unrhyw berson mewn perthynas â gwariant a ysgwyddir mewn cysylltiad â gweithgareddau sy'n cyfrannu at adfywio neu ddatblygu ardal. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys darparu neu wella tai. Mae adran 128 o Ddeddf 1996 yn datgan y gellir atodi telerau wrth y cymorth ariannol. Mae'r pwerau hyn o eiddo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Trosglwyddwyd y pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a chawsant eu trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Mae adran 127 yn darparu y gellir rhoi unrhyw ffurf ar gymorth ariannol o dan adran 126, yn arbennig, gellir rhoi cymorth drwy grantiau, benthyciadau, gwarantau, neu ysgwyddo gwariant er budd y person a gynorthwyir.
- Mae adran 128 yn darparu y gellir rhoi cymorth ariannol o dan adran 126 ar unrhyw delerau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 4. Amcanion y cynllun

Mae'r benthyciad hwn yn gyson ag amcanion penodol y polisi sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy, fel yr amlinellwyd yn Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentref hyd yn oed yn well. Bydd yr ymyrraeth hon yn cyfrannu at y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi rhent cymdeithasol carbon isel yn nhymor y llywodraeth hon.

Bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gyfrannu'n benodol at Gymru iach a mwy cyfartal. Dangosir hyn gan fuddiannau clir o ran iechyd cael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy mewn man diogel.

# 5. Yr Awdurdod Cyhoeddus sydd wedi'i awdurdodi i roi'r Cynllun ar waith

Llywodraeth Cymru

# 6. Categorïau o fentrau sy'n gymwys

Mae'r benthyciadau hyn ar gael yn unig i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gan fod y cyllid yn Gyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC), nid yw awdurdodau lleol yn gymwys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 7. Sector(au) a gefnogir

- Adeiladu
- Gweithgareddau eiddo tirol

# 8. Hyd y cynllun

2 flynedd – mae'r cynllun hwn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/2024 a 2024/2025.

# 9. Cyllideb ar gyfer cymorth o dan y Cynllun

Mae cyfanswm o £44,000,000.00 o fenthyciadau wedi'u darparu, sy'n cyfateb i gymhorthdal o £22,000,000.00 i gyd.

# 10. Ffurf y cymorth

Bydd yr holl gymhorthdal a ddyfernir o dan y Cynllun yn cael ei roi drwy fenthyciadau.

# 11. Telerau ac amodau cymhwysedd

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r ymgeisydd gytuno i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol neu gyflwyno safleoedd ar gyfer eu darparu'n gynt.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 12. Y sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

Gan mai cyllid ar ffurf benthyciad yw hwn, y cymhorthdal yw'r llog a gollir. Cyfradd y benthyciad yw 3% sy'n cymharu â chyfradd y farchnad. Caiff ei ddisgowntio dros y cyfnod o 30 mlynedd. Er mwyn cyfrifo 'cyfradd y farchnad', defnyddir Gilt 30 mlynedd fel cymhariaeth briodol.

## 13. Uchafswm y cymhorthdal a ganiateir o dan y cynllun

Ni thelir mwy na £3,000,000.000 i unrhyw sefydliad.

## 14. Gwybodaeth gysylltu

**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Y Deyrnas Unedig

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** runedrheolicymorthdaliadau@llyw.cymru

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am hawlfraint.

Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Subsidy Control Unit

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-cymorth-benthyciadau-i-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-datblygu-a-phrynu-anheddau-syn-bod-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.